# OUR WALES: FOR HER
# EIN CYMRU: AMDANI HI



STRATEGAETH BÊL-DROED CBDC I FERCHED A GENETHOD– DIWEDDARIAD 2024

# RHAGAIR

Mae strategaeth Ein Cymru: Amdani Hi yn dangos lefel y flaenoriaeth y mae'r Gymdeithas Genedlaethol yn ei rhoi i wella, tyfu a chynnal y gêm i Ferched a Genethod ledled Cymru.

Mae'r gêm i Ferched a Genethod yng Nghymru wedi tyfu, ac mae'n parhau i dyfu ar gyfradd anhygoel. Datblygwyd y strategaeth hon i gefnogi pob rhan o'r gêm – ei gweithlu, ei chyfranogwyr a'i seilwaith – i ffynnu a chael y llwyfan i barhau i ehangu. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar bob rhan o'r gêm i ferched er mwyn hyrwyddo datblygiad a gweledigaeth, p'un a ydych chi'n chwaraewr, yn wirfoddolwr neu'n gefnogwr. Gyda'r strategaeth a'r weledigaeth hon, mae'r gêm yn dod yn opsiwn i fwy a mwy o ferched ar hyd a lled y wlad.

Rydym wedi gweld cynnydd parhaus yn nifer y merched sy'n cymryd rhan yn y gêm ieuenctid ac oedolion, gyda mwy o glybiau a phartneriaid nag erioed o'r blaen yn darparu gweithgareddau i ferched. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau ac ymgyrchoedd newydd i ysbrydoli genethod a merched i fod yn rhan o'r gymuned bêl-droed ar draws pob ardal – chwaraewyr, hyfforddwyr, dyfarnwyr a chefnogwyr. Er enghraifft, mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi datblygu Academi Dyfarnwyr Adran newydd i gefnogi mwy o ferched i ddod yn ddyfarnwyr, yn dilyn llwyddiant diweddar Cheryl Foster ar lwyfan y byd.

Mae Tîm Cenedlaethol y Merched wedi cael torf o 15,000, sy'n record newydd, ac mae cyflwyno cynghreiriau Adran ac Academi Merched Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi galluogi ein chwaraewyr i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n well mewn amgylchedd uchelgeisiol, gyda chwaraewyr ifanc yn pontio'n llwyddiannus i garfanau Tîm Cenedlaethol y Merched.

Mae CBDC yn edrych ymlaen at y dyfodol, ac mae'r diweddariad hwn yn rhoi cipolwg ar y gwaith gwych sydd wedi cael ei wneud i gyrraedd uchelfannau gwych ar ôl 3 blynedd. Mae'r daith yn parhau i Gymdeithas Bêl-droed Cymru: mae ein cenhadaeth i chwalu rhwystrau ac ysbrydoli a dylanwadu ar newid er lles gêm y Merched a'r Genethod yn parhau...

Alys Carlton,
**Cadeirydd Annibynnol**
**Bwrdd Cyfarwyddwyr**
**CBDC**

# STRATEGAETH CBDC EIN CYMRU: AMDANI HI – DIWEDDARIAD 2024

## DWBL Y CYFRANOGIAD

2021: 11,000

2024: 15,898 ▲ Cynnydd o 45%

## DWBL Y BUDDSODDIAD

2021: £1.3 MILIWN

2024: £4.6 MILIWN ▲ Cynnydd o 254%

## DWBL Y CEFNOGWYR

Torf cyfartaledd yng nghemau Cymru

2021: 1,800

2024: 5,370 ▲ Cynnydd o 198%

## CYNRYCHIOLAETH

Cydraddoldeb rhyw ar Bwrdd CBDC

2021: 9%

2024: 27% ▲ Cynnydd o 18%

## CYMRU AR BEN Y BYD

ROWND AIL-GYFLE CWPAN Y BYD MENYWOD FIFA 2023




# 1 GWELEDEDD AC YMWYBYDDIAETH

FOR US. FOR THEM. FOR HER.

Lansio brand creadigol newydd, gyda naratif clir yn dathlu, **'Amdanom Ni. Amdanyn Nhw. Amdani Hi.'**

## 400,000

Cyfanswm cynulleidfa teledu ar gyfer gemau'r Tîm Cenedlaethol, sydd wedi cynyddu o 50,000 (+800%) ers ymgyrch ddiwethaf gemau arbrofol Cwpan y Byd FIFA i Ferched

## PARTNERIAETHAU DARLLEDU NEWYDD

**Tîm Cenedlaethol Merched Cymru** – BBC Cymru Wales
**Genero Adran Leagues** – S4C a Sgorio

Lansio cyfrif Instagram **@becymru**, i rymuso merched a genethod ym myd pêl-droed, ac mae mwy na **7.5 miliwn** o bobl wedi gwylio cynnwys y Tîm Merched Cenedlaethol ar gyfrif **TikTok Cymru**

Gweithio gydag Artistiaid fel Juice Menace, Eleanor Beer a beirdd Llenyddiaeth Cymru i gyflwyno'r **Tîm Cenedlaethol i gynulleidfaoedd newydd**

Torf fwy nag erioed i Gymru

## 15,000

Torf fwy nag erioed y tu allan i Gaerdydd

## 5,982

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Arddangos chwaraewyr fel **modelau rôl cadarnhaol** drwy bartneriaeth â **Llywodraeth Cymru**, gan gyhoeddi cynnwys addysgol sy'n mynd i'r afael â chasineb at ferched ar-lein ac aflonyddu rhywiol

Bute Energy | Admiral

Mwy o nawdd pwrpasol i gêm y merched a'r genethod, gan gynnwys partneriaid newydd **Admiral** a **Bute Energy**.

**Gwobr Cymdeithas Chwaraeon Cymru** am **'Y Fenter Orau i Hyrwyddo Menywod mewn Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol'** ar gyfer strategaeth 'Ein Cymru: Amdani Hi' yn 2023.




# 2 CYNGHREIRIAU A CHYSTADLAETHAU

**YMWYBYDDIAETH** ▲ 43 %
a
**DIDDORDEB** ▲ 15%

yn y cynghreiriau wedi cynyddu
ac **ar ei uchaf!**

**Record Newydd!**

**37** ▲ 500%
Ers 22/23

o Gemau cynghreiriau Adran
yn cael sylw gan ffotograffwyr CBDC
yn 2023/24

**Record Newydd!**

**12** ▲ 300%
Ers 22/23

o Gemau Byw ar Sgorio
yn 2023/24

Bute Energy yw Noddwr
newydd **Cwpan Merched a Genethod CBDC**

Brand a nwyddau clir ar gyfer
**cynghreiriau Adran**
**Gan gynnwys lansio <u>Tudalen we</u>**
**newydd i ymgysylltu â phob cynulleidfa**

**£72,000**

o Grantiau datblygu i **glybiau Adran**

**Record Newydd!**

**5,175**

Torf fwy nag erioed mewn
gêm **Adran Premier**

**Record Newydd!**

**9,511**

Torf fwy nag erioed mewn
gêm **gynghrair Adran**

**223** ▲ 54%

Cyfartaledd y torfeydd mewn
gêm **Adran Premier**



# 3 CYFRANOGIAD

**#1**

Y Chwaraeon tîm mwyaf poblogaidd i Ferched a Genethod ledled Cymru

**15,898** o Ferched a Genethod wedi Cofrestru fel Chwaraewyr

▲ Cynnydd o 45%

HUDDLE ▲ Cynnydd o 50%

**75** o ddarparwyr **Huddle**

## BE. FOOTBALL

**79** o ysgolion uwchradd ar y rhaglen **BE. Football i ysgolion** mewn partneriaeth â'r **Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid**

▲ Cynnydd o 295%

**440**

o ddylanwadwyr **BE. Football** yn darparu gweithgareddau dan arweiniad cyfoedion yn yr ysgol

**Gwobr Cymdeithas Chwaraeon Cymru** am **Y Fenter Orau am Hyrwyddo Menywod a Merched mewn Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol 2024** (Rhaglen BE. Football i ysgolion)

UEFA PLAYMAKERS Inspired by Disney

Lansio **UEFA Disney Playmakers** mewn Ysgolion Cynradd

▲ +100 o Ysgolion Cynradd

## AMDANI HI, OCEAN WAY

Lansio Cyfleuster Cyntaf i Ferched yng Nghaerdydd

## ENVIRONMENTS: FOR HER

Lansio **Amgylcheddau: AMDANI HI** gan ddarparu DPP ac arweiniad i sicrhau bod pob clwb yn diwallu anghenion eu chwaraewyr

Admiral

Gweithio mewn partneriaeth ag **Admiral**, Barod i Chwarae, gan ddarparu offer i'r clybiau sy'n sefyll allan ledled Cymru



# 4 DATBLYGIAD CHWARAEWYR A'R TIMAU CENEDLAETHOL

## CANOLFANNAU DATBLYGU AC ACADEMI GENETHOD CBDC

**9 Canolfan Datblygu CBDC** ledled Cymru

**Academi Genethod CBDC** wedi'i gyflwyno, gyda'r pedwerydd tymor ar y gorwel.
Cyflwyno'r cynllun Rhyddhau am y Diwrnod i chwaraewyr, er mwyn cynyddu'r amser cyswllt.

**7 o chwaraewyr Academi Genethod CBDC** wedi cael gwersylloedd hyfforddi gyda charfan Tîm Cyntaf Merched Cymru.

**28 o chwaraewyr Academi Genethod CBDC** sy'n 14 oed neu'n hŷn yn dechrau ar eu taith fel dyfarnwyr gydag addysg wedi'i hariannu gan CBDC

**63 o chwaraewyr Academi Genethod CBDC** sy'n 14 oed neu'n hŷn yn dechrau ar eu taith hyfforddi gyda llefydd a ariennir gan CBDC ar Wobr Arweinwyr Pêl-droed CBDC, Cymorth Brys Pêl-droed a Gwobr Diogelu CBDC

**12 o chwaraewyr Academi Genethod CBDC** wedi cael cynnig contractau Pro Game Academy o Dymor 2023/2024 ymlaen



# 4 DATBLYGIAD CHWARAEWYR A'R TIMAU CENEDLAETHOL

## Y TIMAU CENEDLAETHOL

Penodi
**Rhian Wilkinson**

45

**Jess Fishlock**,
Y Nifer Fwyaf o Goliau dros Gymru

£

Ffioedd **cyfartal** ar gyfer gemau

UEFA

Timau Dan 17 a Dan 19 y Merched wedi cael un twrnamaint y tymor yng nghystadlaethau **Cynghrair A UEFA**

Concacaf

Merched Dan 16 wedi cael eu gwahodd i dwrnameintiau CONCACAF ac UEFA Friendship

FIFA WOMEN'S WORLD CUP AU NZ 2023

Yr ymgyrch orau i'r Tîm Cyntaf hyd yma, gan gyrraedd **gemau ail-gyfle Cwpan y Byd FIFA**

**8** o Chwaraewyr Ifanc wedi pontio i'r Tîm Cyntaf Cenedlaethol ers 2021



# 5 GWEITHLU

## GWEITHLU A LLYWODRAETHU

**Lansio cynllun Mentora BE. Football**
**44** wedi cael eu mentora dros 3 blynedd
**23** o'r rhai sydd wedi cael eu mentora bellach yn gweithio ym maes Pêl-droed
**12** o'r rhai sydd wedi cael eu mentora bellach yn gwirfoddoli ym maes Pêl-droed

**38.8%**

o weithlu **Cymdeithas Bêl-droed Cymru** yn ferched

**27%** o
**Fwrdd Cymdeithas Bêl-droed Cymru** yn fenywod



Mae'r unig fenyw sy'n aelod o **UEFA EXCO** yn gweithio i **Gymdeithas Bêl-droed Cymru**

Cyflwyno
**Gweithgor Merched a Genethod**

**11%** o
**Gyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru** yn fenywod

**33%**

o **Uwch Dîm Arwain Cymdeithas Bêl-droed Cymru** yn fenywod



# 5 GWEITHLU

## DYFARNWYR

▲ Cynnydd o **87**

**129** o ferched yn swyddogion gemau

ACADEMI DYFARNWYR CYNGHREIRIAU ADRAN

**Lansio** Academi Dyfarnwyr Cynghreiriau Adran yn 2023

FAW WELSH CUP

**Ceri Williams,** y swyddog gemau benywaidd gyntaf i gymryd rhan mewn Rownd Derfynol Cwpan Cymru JD

▲ Cynnydd o **2**

**5** o ferched yn ddyfarnwyr rhyngwladol

Mae **Cheryl Foster** wedi dyfarnu Rownd Gynderfynol EURO UEFA i Ferched, Rownd Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA i Ferched a Rownd Derfynol Cwpan y Byd FIFA i Ferched

UEFA

Bydd **pedair** merch o Gymru yn cael y cyfle i fod yn swyddogion mewn gemau Rhyngwladol UEFA am y tro cyntaf



# 5 GWEITHLU

## HYFFORDDI

Addysgwyr benywaidd yn darparu addysg benodol am y **cylch mislif**

Cyflwyno **Trwydded UEFA B** – Chwaraewyr Elît sy'n Ferched

Cyrsiau Addysg Hyfforddi Penodol i Ferched ar **bob lefel**

Yn Nhystysgrif/Trwydded C CBDC, **mae 22% o'r addysgwyr hyfforddi yn ferched**

O 1 Hyfforddwr â Thrwydded Broffesiynol yn 2021 **i 3 Merch sy'n Meddu ar Drwydded Broffesiynol**

Roedd gan 7 clwb Adran Premier **hyfforddwyr â thrwydded A** yn 2023/24

Yn ystod tymor 2023/24, gwelwyd **cynnydd yn nifer yr addysgwyr sy'n hyfforddi merched** ac sy'n gweithio o fewn y llwybr.




> Mae'r twf cyflym ym mhob agwedd o gêm y merched dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod y tu hwnt i'r hyn y gallai erioed ei ddychmygu. Mae'n teimlo fel ein bod ni fel Cymru ar drothwy rhywbeth arbennig, ac rydym am i Cymru gyfan ddod ar y daith hon gyda ni.

**Angharad James, Cymru**